

Coronafeirws – sut i gofnodi Absenoldeb ar

MyView

Diwygiwyd Mawrth 2021

sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

Pa Gategori Absenoldeb?.....	3
Gweithio gartref neu Heb fod yn gweithio gartref?	3
Sut mae chwilio am y Côt Absenoldeb 'MyView' cywir?	3
Sut ydw i'n gwneud hyn?	3
Beth yw ystyr y rheswm am absenoldeb?	4
Heb fod yn siŵr ynghylch ystyr y Côt 'MyView'?	4
Enghraifft	4
Rhoi gwybod am absenoldeb Covid-19	5
Rhoi gwybod am 'Absenoldeb Salwch':	5
A oes angen i chi gywiro absenoldeb salwch?.....	8
Rhoi gwybod am 'Absenoldeb Arall'	9
A oes angen i chi gywiro 'Absenoldeb Arall'?	10
Atodiad: Codau Absenoldeb COVID-19.....	11

Mae'n rhaid cofnodi pob absenoldeb salwch neu absenoldeb arall sy'n gysylltiedig â Covid-19 ar 'MyView'. Gofynnir i chi roi gwybod am yr absenoldeb cyn gynted â phosibl ar ôl cysylltu â'ch gweithiwr.

Pa Gategori Absenoldeb?

Bydd angen i chi benderfynu a ddylid cofnodi'r absenoldeb fel Salwch neu fel Absenoldeb Arall:

Salwch	i'w ddefnyddio dim ond os yw'r gweithiwr yn sâl ac <u>nad</u> yw'n ddigon iach i weithio.
Absenoldeb Arall	i'w ddefnyddio ar gyfer pob absenoldeb arall gan gynnwys cyfnodau o: <ul style="list-style-type: none">• Hunanynysu• Os yw'r gweithiwr wedi cael ei ddiagnosio/yn dangos symptomau ond yn gallu gweithio gartref• Os cysylltwyd â'r gweithiwr o dan y cynllun profi, olrhain a diogelu

Gweithio gartref neu Heb fod yn gweithio gartref?

Os ydych yn cadarnhau y dylid cofnodi'r absenoldeb yn y categori 'Absenoldeb Arall', yna mae angen i chi ystyried pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i'ch gweithiwr:

Gweithio gartref	Ile mae'r gweithiwr <u>yn ddigon iach i weithio</u> ac yn gallu gweithio gartref, e.e. Cymorth Busnes
Heb fod yn gweithio gartref	Ile mae gweithiwr <u>yn ddigon iach i weithio</u> ond <u>nid yw'n gallu</u> gweithio gartref, e.e. Llwythwr Sbwriel, Glanhäwr

Sut mae chwilio am y Côd Absenoldeb 'MyView' cywir?

Rydym wedi creu [tabl](#) (Codau Absenoldeb COVID-19) i nodi'r holl godau absenoldeb sydd eu hangen arnoch i roi gwybod am absenoldeb eich gweithiwr. Dewiswch y côd absenoldeb perthnasol o'r tabl hwn.

Sut ydw i'n gwneud hyn?

Yn gyntaf, bydd absenoldeb eich gweithiwr yn berthnasol i un o'r 7 phrif faes a nodir isod ac yn y tabl:

- Salwch
- Hunanynysu - Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio Gartref
- Profi, Olrhain a Diogelu
- Asesiad Risg
- Hunanynysu cyn Llawdriniaeth
- Gweithiwr Allweddol yn Hunanynysu
- Amser o'r gwaith ar gyfer plant

Beth yw ystyr y rheswm am absenoldeb?

<u>Salwch</u>	Mae'r gweithiwr yn sâl ac nid yw'n ddigon iach i weithio
<u>Hunanynysu</u>	Disgwylir i weithwyr sy'n hunanynysu aros gartref a pheidio â mynd i'r gwaith. Mae'r gweithiwr yn ddigon iach i weithio ac mae'n hunanynysu oherwydd ei fod yn dangos symptomau, wedi cael ei ddiagnosisio neu mewn cysylltiad ag aelod o'r teulu â symptomau.
<u>Profi, Orlhain a Diogelu</u>	Fel rhan o'r system hon gofynnir i gysylltiadau agos pobl sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws hunanynysu am 10 diwrnod. Mae'r codau absenoldeb Profi, Orlhain a Diogelu i'w defnyddio dim ond pan fydd swyddog wedi cysylltu â gweithiwr o dan y cynllun Profi, Orlhain a Diogelu a'i gynghori i hunanynysu ond lle mae'r gweithiwr yn ddigon iach i weithio.
<u>Asesiad Risg</u>	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr yn ddigon iach i weithio ond na allant fynd i mewn i'r gweithle oherwydd Asesiad Risg Covid.
<u>Hunanynysu cyn Llawdriniaeth</u>	I'w ddefnyddio pan fydd gweithiwr sy'n aros am lawdriniaeth, wedi cael dyddiad ar gyfer y llawdriniaeth/gweithdrefn ac yn cael gwybod bod angen iddo/iddi hunanynysu am 10 diwrnod cyn y gall y llawdriniaeth/gweithdrefn fynd yn ei blaen a'i fod yn ddigon iach i weithio.
<u>Gweithiwr Allweddol yn Hunanynysu</u>	Ar gyfer Gweithwyr sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael canlyniad prawf NETGATIF ar gyfer COVID-19. Mae'n RHAID i'r Gweithiwr beidio â dychwelyd i'r gwaith am o leiaf 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y symptomau.
<u>Amser o'r gwaith ar gyfer plant</u>	Ar gyfer gweithwyr sydd naill ai'n gofalu am blentyn sy'n cael ei ystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd â phroblemau o ran gofal plant yn sgil cau'r ysgolion ac nad oes darpariaeth gofal arall ar gael ac nad yw'n gallu gweithio gartref. Mae'n RHAID cwblhau Rhestr Wirio'r Rheolwyr cyn i'r absenoldeb hwn gael ei awdurdodi.

Yn ail, mae pob un o'r 7 prif reswm am absenoldeb a nodir uchod wedi'u rhannu ymhellach er mwyn rhoi gwybodaeth fwy penodol. Mae angen i chi bellach ddewis y côd sy'n berthnasol i'ch gweithiwr o blith yr opsiynau sydd ar gael yn y [tabl](#). Rydych eisoed wedi cadarnhau a ddylid cofnodi'r absenoldeb fel 'salwch' neu 'absenoldeb arall' ac wedi cadarnhau ai 'gweithio gartref' neu 'heb fod yn gweithio gartref' sy'n berthnasol, felly bydd hyn yn eich helpu i chwilio am y côd cywir.

Heb fod yn siŵr ynghylch ystyr y Côd 'MyView'?

Rydym wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol yn y golofn 'Disgrifiad o'r Côd' ac 'Eglurhad Ychwanegol' yn y [tabl](#) i'ch helpu i benderfynu ai hwn yw'r côd cywir i chi a'ch gweithiwr ei ddefnyddio.

Enghraifft

Mae eich gweithiwr yn cysylltu â chi i ddweud ei fod yn sâl ac na all weithio am ei fod wedi datblygu symptomau coronafeirws perthnasol newydd (gwres uchel, peswch parhaus newydd, colli synnwyr arogli neu flasau neu unrhyw newidiadau i'r synhwyrâu hynny) ond nid yw wedi cael prawf i gadarnhau a yw coronafeirws arno.

Dewis y côd cywir

Nid yw'r gweithiwr hwn yn ddigon iach i weithio, felly'r categori absenoldeb yw salwch. Mae angen i chi chwilio am salwch yn y [tabl](#), mae'n gyntaf ar y rhestr. Nawr gallwch weld bod salwch wedi'i rannu'n ddau opsiwn arall:

Côd My View	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
COVID heb ei ddiagnosio - hunanyysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio	Coronafeirws heb ei ddiagnosio, symptomau perthnasol newydd (hunanyysu am 10 diwrnod)	Lle mae gan weithiwr symptomau perthnasol newydd, ond nid yw'r rhain wedi'u diagnosio ac nid yw'n ddigon iach i weithio .
COVID wedi'i ddiagnosio - hunanyysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio	Coronafeirws wedi'i ddiagnosio (hunanyysu am 10 diwrnod - nid yw'n ddigon iach i weithio)	Lle mae gan weithiwr symptomau ac mae'r rhain wedi'u diagnosio drwy brawf positif ac nid yw'n ddigon iach i weithio .

Edrychwch ar y golofn eglurhad ychwanegol ar y tabl i gadarnhau'r côd absenoldeb sydd ei angen arnoch. Yn yr enghraifft hon, mae'r rheswm cyntaf (COVID heb ei ddiagnosio - hunanyysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio) yn berthnasol i'ch gweithiwr am nad yw'n ddigon iach i weithio, ac mae wedi datblygu symptomau perthnasol newydd ond nid ydynt wedi cael eu diagnosio.

Barod i fynd!

Mae gennych y côd absenoldeb cywir bellach a gallwch gofnodi'r absenoldeb yn 'MyView'.

Rhoi gwybod am absenoldeb Covid-19

Bydd angen i chi ddilyn un o'r ddwy broses isod:

- Rhoi gwybod am '[Absenoldeb Salwch](#)'
- Rhoi gwybod am '[Absenoldeb Arall](#)'

Rhoi gwybod am 'Absenoldeb Salwch':

Er gwybodaeth: Ni ddylid cyfrif absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â Covid-19 at ddibenion trothwyon absenoldeb salwch neu bolisiâu rheoli salwch.

Dewiswch yr aelod perthnasol o'r tîm yn y tab **Fy Mhobl** ar y sgrin Detholwr Tîm.

The screenshot displays the 'Team Selector' page. At the top, there is a navigation bar with 'ME' and 'MY PEOPLE' tabs. A red arrow points to the 'MY PEOPLE' tab. Below the navigation bar, the 'Team Selector' page is visible. It includes a search bar for team member names, a filter for 'Direct Reports', and a list of team members. A red arrow points to the 'Select' button in the bottom right corner of the team member list.

Ar ôl i chi ddewis y gweithiwr perthnasol, bydd angen i chi ddewis **Hysbysiad Salwch**:

The screenshot shows the 'Team Selector' interface. On the left, a dark sidebar menu contains the following items: Team Selector, My Team Personal Details, Authorisations, Sickness Notifications (highlighted with a red arrow), Planner, Leave, Claims, Training Profile, Appraisal/Assessment Forms, and Form History. The main content area features a search bar labeled 'Search by team member name' with a search icon and a 'Direct Reports' button. Below this is a 'Filter by surname' section with buttons for 'All' and letters A through J. At the bottom, there is a 'Direct Reports for' section with 'Select All' and 'Deselect All' buttons.

Yna cliciwch **Rhoi gwybod am Salwch**:

This screenshot shows the 'Team Selector' interface with the 'Sickness Notifications' menu item expanded. A red arrow points to the 'Notify Sickness' option. The main content area is now titled 'STANDARD TEAM SELECTOR VIEW' and shows a search bar, filter buttons (All, A-K), and 'Direct Reports for I' section with 'Select All' and 'Deselect All' buttons.

Bydd y sgrin Hysbysiad Salwch yn ymddangos, a bydd angen i chi ddewis y wybodaeth ganlynol:

Math	Salwch
Rheswm am y Salwch	Anhwylderau heintus/croen/gwaed ac awtoimiwnedd
Categori Salwch	Bydd angen i chi ddewis y côd sy'n berthnasol i'ch gweithiwr o blith y ddau opsiwn yma: COVID wedi'i ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio, NEU COVID heb ei ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio
Math o Ardystiad	COVID – dim angen ardystiad
Hyd	Dewiswch hyd perthnasol yr absenoldeb: Un diwrnod neu fwy nag un diwrnod
O - Dyddiad	Dewiswch ddyddiad dechrau'r absenoldeb salwch o'r calendr
I - Dyddiad	Dewiswch ddyddiad gorffen yr absenoldeb salwch o'r calendr. Peidiwch â gadael yr absenoldeb salwch yn benagored (h.y. heb ddyddiad gorffen). Os nad ydych yn gwybod pryd y bydd y gweithiwr yn dychwelyd i'r gwaith, nodwch 1 wythnos. Yna, gallwch adolygu'r absenoldeb yn wythnosol.

Bydd eich sgrin yn edrych fel hyn:

Sickness Notification

Sickness Notification Guidance Coronavirus Notification Guidance

Type

Employee [REDACTED]

Type Industrial Injury Sickness

Sickness Reason Infectious/skin/blood and auto-immune disorders

Sickness Category COVID undiagnosed 10d SI not fit to work

Certificate Type COVID No Certification Required

Duration Single Day More Than One Day

Single Day

Date* [REDACTED] Full Day AM Only PM Only Return to Work Interview Date [REDACTED]

Employee Support Meeting Date [REDACTED]

1st Absence Review Meeting Date [REDACTED]

Ar ôl i chi fewnbynnu'r holl wybodaeth sydd ei hangen, gofynnir i chi **Gyflwyno'r** absenoldeb salwch.

Pwysig - Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r absenoldeb er mwyn iddo gael ei brosesu a'i gofnodi yn y system Adnoddau Dynol/Cyflogres graidd, ac i sicrhau bod cyflog y gweithiwr yn cael ei gyfrifo'n gywir.

A oes angen i chi gywiro absenoldeb salwch?

Bydd achosion lle bydd angen i chi ddiwygio'r manylion absenoldeb salwch yr ydych wedi'u cyflwyno, er enghraifft, dyddiad gorffen anghywir. Yn yr achosion hyn, anfonwch e-bost at Dîm Absenoldeb Adnoddau Dynol: timabsenoldebadnoddadynol@sirgar.gov.uk

Rhoi gwybod am 'Absenoldeb Arall'

Dewiswch yr aelod perthnasol o'r tîm yn y tab Fy Mhobl ar y sgrin Detholwr Tîm.

The screenshot shows the 'Team Selector' interface. The top navigation bar has 'ME' and 'MY PEOPLE' tabs. The 'MY PEOPLE' tab is selected. The main content area is titled 'Team Selector' and has two tabs: 'ONBOARDING VIEW' and 'STANDARD TEAM SELECTOR VIEW'. Below the tabs is a search bar 'Search by team member name' with a search icon and a filter dropdown set to 'Direct Reports'. There is a 'Clear search' button. Below the search bar is a 'Filter by surname' section with a grid of letters from A to Z, with 'L' selected. Below that is a 'Direct Reports for' section with 'Select All' and 'Deselect All' buttons. At the bottom right, there is a 'Select' button and a red arrow points to it.

Ar ôl i chi ddevis y gweithiwr, bydd angen i chi glicio ar **Absenoldeb** ac wedyn **Absenoldeb Arall**:

The screenshot shows the 'Team Selector' interface with the 'Leave' menu open. The left-hand navigation menu has 'Team Selector', 'My Team Personal Details', 'Authorisations', 'Sickness Notifications', 'Planner', 'Leave', 'Annual Leave', 'Other Absence', 'Additional Annual Leave', 'Claims', 'Training Profile', 'Appraisal/Assessment Forms', 'Form History', and 'Manager Forms'. The 'Leave' menu is expanded, showing 'Annual Leave', 'Other Absence', and 'Additional Annual Leave'. Red arrows point to 'Leave' and 'Other Absence'. The main content area is titled 'Team Selector' and has two tabs: 'ONBOARDING VIEW' and 'STANDARD TEAM SELECTOR VIEW'. Below the tabs is a search bar 'Search by team member name' with a search icon and a filter dropdown set to 'Direct Reports'. There is a 'Clear search' button. Below the search bar is a 'Filter by surname' section with a grid of letters from A to N, with 'L' selected. Below that is a 'Direct Reports for' section with 'Select All' and 'Deselect All' buttons. At the bottom right, there is a 'Select' button and a red arrow points to it.

Ar y sgrin Absenoldeb Arall, bydd angen i chi sgrolio i lawr gan ddefnyddio'r bar sgrolio ar yr ochr dde i waelod y sgrin, a chlicio ar **Creu** yn y gornel dde isaf:

The screenshot shows the 'Other Absence' screen. The left-hand navigation menu has 'Team Selector', 'My Team Personal Details', 'Authorisations', 'Sickness Notifications', 'Planner', 'Leave', 'Annual Leave', 'Other Absence', 'Additional Annual Leave', 'Claims', 'Training Profile', 'Appraisal/Assessment Forms', 'Form History', and 'Manager Forms'. The 'Other Absence' menu item is selected. The main content area is titled 'Other Absence' and has a calendar view for 2019 and 2020. Below the calendar is a table 'Other Absence History' with columns 'From', 'To', 'Form', 'Type', and 'Status'. The table has three rows of data. At the bottom right, there is a 'Create' button and a red arrow points to it.

From	To	Form	Type	Status
28/02/2020	03/03/2020		Absence	Authorised
08/10/2019	08/10/2019	0000743964	Absence	Authorised
02/10/2017	02/10/2017	0000571187	Absence	Authorised

Yn y sgrin cais Absenoldeb Arall, rhwch y wybodaeth ganlynol:

Math	Dewiswch Absenoldeb
Dyddiad Dechrau	Dewiswch ddyddiad dechrau'r absenoldeb arall o'r calendr
Dyddiad Gorffen	Dewiswch ddyddiad gorffen yr absenoldeb arall o'r calendr

Ar ôl darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen, cliciwch ar y botwm **Nesaf** yng nghornel dde isaf eich sgrin i symud ymlaen.

Yn y sgrîn manylion Absenoldeb Arall, mae angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol gan fod pob maes arall eisoes wedi'i lenwi i chi (os yw ar gyfer absenoldeb diwrnod llawn):

Math o absenoldeb	Dewiswch Gyda Thâl
Y Rheswm	Dewiswch y rheswm am absenoldeb yn gysylltiedig â COVID sy'n berthnasol i'ch gweithiwr
Manylion ychwanegol	Gadewch y blwch hwn yn wag oni bai eich bod am roi gwybodaeth ychwanegol am yr absenoldeb y gallwch chi a'r gweithiwr gyfeirio ati yn y dyfodol

Bydd eich sgrin yn edrych fel hyn:

Ar ôl mewnbynnu'r holl wybodaeth, gofynnir i chi **Gyflwyno'r** absenoldeb.

Pwysig - Mae'n **rhaid i chi gyflwyno'r** absenoldeb er mwyn iddo gael ei brosesu a'i gofnodi yn y system Adnoddau Dynol/Cyflogres graidd.

A oes angen i chi gywiro 'Absenoldeb Arall'?

Bydd achosion lle bydd angen i chi ddiwygio'r manylion absenoldeb arall yr ydych wedi'u cyflwyno, er enghraifft, dyddiad gorffen anghywir neu os yw'r gweithiwr am wneud cais am wyliau blynyddol yn ystod y cyfnod hunanwarchod. Yn yr achosion hyn, anfonwch e-bost at Dîm Absenoldeb Adnoddau Dynol: timabsenoldebadnoddau@sirgar.gov.uk

Atodiad: Codau Absenoldeb COVID-19

Codau Absenoldeb COVID-19					
Côd WebView Resourcelink	Côd MyView	Math o absenoldeb	Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio gartref	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
Salwch					
27028	COVID heb ei ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio	Salwch - Anhwyldeu heintus/croen /gwaed ac awtoimiwnedd		Coronafeirws heb ei ddiagnosio, symptomau perthnasol newydd (hunanynysu am 10 diwrnod)	Ile mae gan weithiwr symptomau perthnasol newydd, ond nid yw'r rhain wedi'u diagnosio ac nid yw'n ddigon iach i weithio.
27029	COVID wedi'i ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio	Salwch - Anhwyldeu heintus/croen /gwaed ac awtoimiwnedd		Coronafeirws wedi'i ddiagnosio (hunanynysu am 10 diwrnod - nid yw'n ddigon iach i weithio)	Ile mae gan weithiwr symptomau ac mae'r rhain wedi'u diagnosio drwy brawf positif ac nid yw'n ddigon iach i weithio.
27030	Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negatif, hynysu am 10 diwrnod, heb fod yn ddigon iach i weithio	Salwch - Anhwyldeu heintus/croen /gwaed ac awtoimiwnedd		Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negative (hynysu am 10 diwrnod - heb fod yn ddigon iach i weithio)	Ile mae gan weithiwr sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael canlyniad prawf NETGATIF ar gyfer COVID-19 ac nid yw'n ddigon iach i weithio. Mae'n RHAID i'r Gweithiwr beidio â dychwelyd i'r gwaith am o leiaf 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y symptomau.
27031	Adwaith alergaidd i frechlyn COVID	Salwch - Anhwyldeu heintus/croen /gwaed ac awtoimiwnedd		Adwaith alergaidd i frechlyn COVID	Ile mae gweithiwr yn cael adwaith i frechlyn COVID-19 ac nid yw'n ddigon iach i weithio.

Codau Absenoldeb COVID-19					
Côd WebView Resourcelink	Côd MyView	Math o absenoldeb	Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio gartref	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
Hunanynysu - Gweithio gartref					
000192	COVID wedi'i ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Coronafeirws wedi'i ddiagnosio (hunanynysu am 10 diwrnod)	Ile mae gweithiwr wedi cael ei ddiagnosio ond mae'n ddigon iach i weithio .
000193	Symptomau COVID, hunanynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Coronafeirws, symptomau perthnasol newydd (hunanynysu am 10 diwrnod)	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr yn hunanynysu gan fod ganddo symptomau perthnasol newydd ond ei fod yn ddigon iach i weithio .
000203	COVID - aelod o'r aelwyd â symptomau, hunanynysu am 10 diwrnod, gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Coronafeirws - aelod o'r aelwyd â symptomau (hunanynysu am hyd at 10 diwrnod)	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr wedi cael cysylltiad ag aelod o'r aelwyd/person sydd â symptomau, ond nad oes gan y gweithiwr symptomau a'i fod yn ddigon iach i weithio .
Hunanynysu - Heb fod yn gweithio gartref					
000194	COVID wedi'i ddiagnosio - hunanynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio, heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws wedi'i ddiagnosio (hunanynysu am 10 diwrnod)	Ile mae gweithiwr wedi cael diagnosis ac mae'n ddigon iach i weithio ond nid yw'n gallu gweithio gartref.
000195	Symptomau COVID, hunanynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio, heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws, symptomau perthnasol newydd (hunanynysu am 10 diwrnod)	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr yn hunanynysu gan fod ganddo symptomau perthnasol newydd ond ei fod yn ddigon iach i weithio ond nid yw'n gallu gweithio gartref.
000205	COVID - aelod o'r aelwyd â symptomau, hunanynysu am 10 diwrnod, heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws - aelod o'r aelwyd â symptomau (hunanynysu am hyd at 10 diwrnod)	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr wedi cael cysylltiad ag aelod o'r aelwyd/person sydd â symptomau, ond nad oes gan y gweithiwr symptomau a'i fod yn ddigon iach i weithio .

Codau Absenoldeb COVID-19					
Côd WebView Resourcelink	Côd MyView	Math o absenoldeb	Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio gartref	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
Profi, Orlhain, Diogelu					
000206	COVID - Profi, Orlhain, Diogelu, hunanynysu am hyd at 10 diwrnod, gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Coronafeirws - Profi, Orlhain a Diogelu, hunanynysu am hyd at 10 diwrnod	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr wedi cael cyngor i hunanynysu drwy'r cynllun profi, olrhain a diogelu oherwydd gallai fod wedi cael cysylltiad â pherson heintiedig, ond nid oes gan y gweithiwr unrhyw symptomau a'i fod yn ddigon iach i weithio .
000207	COVID - Profi, Orlhain, Diogelu, hunanynysu am hyd at 10 diwrnod, heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws - Profi, Orlhain a Diogelu, hunanynysu am hyd at 10 diwrnod	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr wedi cael cyngor i hunanynysu drwy'r cynllun profi, olrhain a diogelu oherwydd gallai fod wedi cael cysylltiad â pherson heintiedig, ond nid oes gan y gweithiwr unrhyw symptomau a'i fod yn ddigon iach i weithio .
Asesiad Risg					
000196	Asesiad Risg COVID gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Asesiad Risg Coronafeirws	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr yn ddigon iach i weithio ond na allant fynd i mewn i'r gweithle oherwydd Asesiad Risg Covid.
000197	Asesiad Risg COVID heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Asesiad Risg Coronafeirws	i'w ddefnyddio pan fo gweithiwr yn ddigon iach i weithio ond na allant fynd i mewn i'r gweithle oherwydd Asesiad Risg Covid.

Codau Absenoldeb COVID-19					
Côd WebView Resourcelink	Côd MyView	Math o absenoldeb	Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio gartref	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
Hunanynysu Cyn Llawdriniaeth					
000208	COVID - Hunanynysu cyn llawdriniaeth am 10 diwrnod gan weithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Hunanynysu cyn llawdriniaeth Coronafeirws	I'w ddefnyddio pan fydd gweithiwr sy'n aros am llawdriniaeth, wedi cael dyddiad ar gyfer y llawdriniaeth/gweithdrefn ac yn cael gwybod bod angen iddo/iddi hunanynysu am 10 diwrnod cyn y gall y llawdriniaeth/gweithdrefn fynd yn ei blaen a'i fod yn ddigon iach i weithio .
000209	COVID - Hunanynysu cyn llawdriniaeth am 10 diwrnod heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Hunanynysu cyn llawdriniaeth Coronafeirws	I'w ddefnyddio pan fydd gweithiwr sy'n aros am llawdriniaeth, wedi cael dyddiad ar gyfer y llawdriniaeth/gweithdrefn ac yn cael gwybod bod angen iddo/iddi hunanynysu am 10 diwrnod cyn y gall y llawdriniaeth/gweithdrefn fynd yn ei blaen a'i fod yn ddigon iach i weithio .
Gweithiwr Allweddol yn Hunanynysu					
000200	Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negatif, hynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio gartref	Absenoldeb Arall	Gweithio gartref	Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negatif (hunanynysu am 10 diwrnod)	I'w ddefnyddio pan gweithiwr sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael canlyniad prawf NETGATIF ar gyfer COVID-19 a'i fod yn ddigon iach i weithio . Mae'n RHAID i'r Gweithiwr beidio â dychwelyd i'r gwaith am o leiaf 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y symptomau.
000201	Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negatif, hynysu am 10 diwrnod, digon iach i weithio, heb fod yn gweithio gartref	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Gweithiwr allweddol â phrawf COVID negatif (hunanynysu am 10 diwrnod)	I'w ddefnyddio pan gweithiwr sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael canlyniad prawf NETGATIF ar gyfer COVID-19 a'i fod yn ddigon iach i weithio . Mae'n RHAID i'r Gweithiwr beidio â dychwelyd i'r gwaith am o leiaf 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y symptomau.

Codau Absenoldeb COVID-19					
Côd WebView Resourcelink	Côd MyView	Math o absenoldeb	Gweithio gartref/Heb fod yn gweithio gartref	Disgrifiad o'r Côd	Eglurhad ychwanegol
COVID amser o'r gwaith ar gyfer plant					
000204	COVID plentyn yn hunanynysu (10 diwrnod heb fod yn gweithio gartref)	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws - mae'n rhaid i blentyn hunanynysu (10 diwrnod)	Amser o'r gwaith gyda thâl i rieni sydd â phlant yn ynysu oherwydd COVID-19 ac nad ydynt yn gallu gweithio gartref (10 diwrnod). Mae'n RHAID cwblhau Rhestr Wirio'r Rheolwyr cyn i'r absenoldeb hwn gael ei awdurdodi.
000213	COVID amser o'r gwaith ar gyfer plant (nid hunanynysu)	Absenoldeb Arall	Heb fod yn gweithio gartref	Coronafeirws - gofalu am blentyn sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu yn sgil cau'r ysgolion	Ar gyfer gweithwyr sydd naill ai'n gofalu am blentyn sy'n cael ei ystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd â phroblemau o ran gofal plant yn sgil cau'r ysgolion ac nad oes darpariaeth gofal arall ar gael ac nad yw'n gallu gweithio gartref. Mae'n RHAID cwblhau Rhestr Wirio'r Rheolwyr cyn i'r absenoldeb hwn gael ei awdurdodi.